

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER  
13 Ebrill 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

## YN BRESENNOL

Cyng I Roberts, R G Parry, N Highley, C LI Thomas, I Rowlands, E Huws.

## YMDDIHEURIADAU

Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts

**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng R G Parry (sedd wag)

## DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 9 Mawrth 2016

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 9 Mawrth 2016, Cyng N Highley yn cynnig a Cyng C LI Thomas yn eilio.

## MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Mae'r Clerc yn disgwyl canlyniad y cais am y grant

**Williams Homes Bala** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Williams Homes, Bala

**Mynwent Llanbeulan** - Mae'r gwaith bron wedi ei gwblhau.

**Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones** - mewn llaw.

**Ffensys maes chwarae (y rhai a ddifrodwyd)** - Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at perchennog y ty (Cynefin, Bryngwran) yn gofyn iddo dynnu y fixtures oddi wrth yr ffens.

**Siec cyfrif y maes chwarae** - bydd Cyng C LI Thomas yn trafod y mater gyda'r banc (mae'r Clerc wedi derbyn llythyr gan y banc yn dweud beth sydd angen ei wneud).

**Iorïau yn parcio ar hyd Lon Salem** - Mae'r Heddlu yn edrych i mewn i'r mater

**Dau sedd wâg** - mewn llaw

**Mwd ar y ffordd - Lon Salem** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Williams Homes, Bala

## ADRODDIAD y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd bod preniau ar yr offer yn y maes chwarae wedi pydru. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod ar y safle gyda Cymunedau yn Gyntaf. Hefyd, bod dwr wedi bod yn rhedeg o Bro Mynydd at Lon Salem - mae Dwr Cymru wedi datrys y problem.

LLOFNOD

(Cadeirydd) 11 Mai 2016

## **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**

### **Cynllunio**

16C204 cais llawn i newid adeiladau allanol i 5 annedd a 2 uned gwyliau a gosod paced trin carthffosiaeth yn Plas Llechylched, Bryngwran - mae angen gwella yr mynedfa

16C202 cais llawn (cynllun diwygiedig) capel Salem, Bryngwran - mae'r Adran Cynllunio yn cynnal cyfarfod ar y safle wythnos nesaf.

### **Adnoddau**

Grantiau Fudiadau Gwirfoddol - Bydd y Clerc yn paratoi cais am grant tuag at ffensys ychwanegol

### **Priffyrdd**

Lon Salem (parcio) - Ymateb gan y Cyngor Sir - Byddant yn gofyn i swyddogion gorfodaeth parcio y Cyngor i alw heibio Lon Salem

## **GOHEBIAETH YCHWANEGOL**

**Cynefin** - Cadarnhau cysylltiad lleol ymgeisydd ar gyfer Bro Crigyll - Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau y cysylltiad

**Mrs Amanda Southam** - Darllenwyd ebost gan Mrs Southam: Yn dilyn ein sgwrs dros y ffôn heddiw, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Cyngor Tref Bryngwran rhoi y wybodaeth ganlynol: - Cododd y Cynghorydd Bob Parry yn destun pryder ar ran Cyngor Tref Bryngwran yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion Ynys Môn heddiw am ein cais cynllunio. Cyfeiriodd yn fater o bryder y bu damwain car a phlentyn wedi cael ei fwrw drosodd ar Lon Salem. Ni all fy ngŵr cael hyd i unrhyw beth ar gofnod cyhoeddus sy'n ymwneud â damwain ffordd ger y capel oedd yn cynnwys plentyn. Felly, byddwn yn hoffi gwybod y dyddiad ac ar pa adeg o'r dydd digwyddodd hyn neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwn gan ystyried hyn wedi cael eu trafod gan y cynghorwyr y dref. Hefyd cadarnhewch a yw'r heddlu neu adran briffyrdd wedi cael eu hysbysu?

Gofynnwyd i'r Clerc i ymateb yn datgan bod cyn belled a mae'r Cyngor Cymuned yn gwybod nad oedd y mater wedi cael ei trosglwyddo i'r Heddlu neu'r Cyngor Sir. Yr oedd Cynghorydd Irfon Rowlands yn dyst i'r digwyddiad.

**Barclays Bank** - gweler uchod.

## **MATERION ARIANNOL**

Cytunwyd i dalu y canlynol:

J D Roberts (archwiliwr) £65.00

## **MATERION ERAILL -**

Llwybr Cyhoeddus - Mae'r giat mochyn ar y llwybr Bro Llechylched - Felin y Plas wedi torri. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.

LLOFNOD

(Cadeirydd) 11 Mai 2016